Agenda Eitem 7.2 – Cyngor Sir, 8fed Gorffennaf, 2020

Gwelliant i'r Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Kevin Madge yn ystod cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin ar 8fed Gorffennaf 2020

Mae'r Cyngor hwn yn:

- Credu y dylem edrych ar ddatblygu rheilffordd i deithwyr sy'n fodern ac yn gydnaws â'r amgylchedd nawr bod rheilffordd cludo glo Dyffryn Aman yn cyrraedd diwedd ei hoes.

- Cadarnhau ei benderfyniad ar 18 Hydref 2017 i alw am gynnwys Dyffryn Aman a chymunedau eraill yn Sir Gaerfyrddin yn natblygiad Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin.

- Nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ynghylch datblygu Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin, yn dilyn cytundeb ynghylch cyllideb gyda Phlaid Cymru yn 2017.

- Mynegi ei siom nad yw'r Astudiaeth Ddichonoldeb ynghylch datblygu Metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin wedi cael ei chyhoeddi eto.

- Galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r astudiaeth ddichonoldeb a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i nodi'r posibiliadau o ran ailagor y llinellau rheilffordd Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth i deithwyr.

Byddai'r rheilffordd modern yn cysylltu Dyffryn Aman a Dyffryn Gwendraeth â Llanelli ac Abertawe.

Gallai hyn helpu i leihau tlodi trafnidiaeth, helpu preswylwyr i deithio i'r gwaith a dod â thwristiaid i mewn i'n cymoedd, gan greu swyddi yn y blynyddoedd i ddod. Sefydlwyd y rheilffordd hon ym 1842 ac mae'n rhaid i ni ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n hanfodol bod astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal, gan fod y rheilffordd yn cael ei gwaredu cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau yn y dyfodol yn parhau'n fforddiadwy i'r cyhoedd.

Cynigiwyd gan:
Y Cynghorydd Hazel Evans

Eiliwyd gan:
Y Cynghorydd David Jenkins